TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

Dyddiad cyhoeddi: 26 Tachwedd 2020

Cais Rhyddid Gwybodaeth

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch Cais Rhyddid Gwybodaeth. Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â gofynion y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'n polisi mynediad at wybodaeth.

Gofynnoch am y wybodaeth ganlynol:

> "Allwch chi ddarparu polisi neu weithdrefn TrC i mi sy'n cwmpasu sut mae'n asesu ymddygiad ei gontractwyr o ran moeseg, gan gynnwys iechyd a diogelwch. Er enghraifft, yr ymagwedd sy'n cael ei dangos gan staff TrC at deithwyr mewn man cyhoeddus, megis risgiau mewn gorsaf drenau yn peri niwed i iechyd meddwl a lles teithwyr."

Ar ôl adolygu'ch cwestiwn, gallwn ddarparu'r wybodaeth ganlynol i chi:

Nid oes gan TrC bolisi neu weithdrefn benodol sy'n cwmpasu sut mae'n asesu ymddygiad ei gontractwyr o ran moeseg, iechyd a diogelwch. Yn hytrach na hynny, mae ein holl gontractwyr yn cofrestru ac yn ymrwymo i'r un polisïau, gweithdrefnau a chanllawiau fframwaith fel ein staff ein hunain, a dyma'r rhai sy'n rheoli eu hymddygiad, ynghyd â chymalau penodol eu contract gyda TrC. Mae hyn yn cynnwys polisïau a gweithdrefnau sy'n cwmpasu pob agwedd ar iechyd a diogelwch, adnoddau dynol, cod ymddygiad, gwrth-dwyll, llwgrwobrwyo a llygredd a chwythu'r chwiban.

Mae nifer o fesurau ansawdd wedi'u cynnwys yn y contractau rhwng TrC a phob contractwr rydym yn eu cyflogi, ac mae'r rhain yn cael eu hadolygu bob mis gan ein Pennaeth Diogelu Refeniw. Mae TIL yn cael eu monitro hefyd yn erbyn cwynion, yn derbyn ymweliadau siopwyr cudd, ynghyd ag ymweliadau annisgwyl gan TrC a Gwasanaethau Rheilffyrdd TrC.

Gobeithio y bydd y wybodaeth hon o fudd i chi.

Yn gywir,

Trafnidiaeth Cymru